

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2023**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae gan y pennaeth ac arweinwyr eraill ddisgwyliadau uchel iawn o'r staff a'r disgyblion. Maent yn hyrwyddo gwerthoedd proffesiynol yn gyson ac yn arwain â sensitifrwydd. Mae yno naws deuluol Gymreig ac ethos cryf o weithio fel tîm sydd yn treiddio'r holl ysgol. Mae cysondeb uchel yn y modd mae staff yn cyflawni eu dyletswyddau sydd yn sicrhau bod cefnogaeth gref ar gael i ddisgyblion fel y gallant gyflawni eu potensial.

Mae ansawdd yr addysgu'n gyson uchel ar draws yr ysgol a cheir perthnasoedd gwaith agos a chynhaliol rhwng y disgyblion a'r athrawon. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae staff yn cynllunio cyfleoedd dysgu diddorol sy'n cynnig her briodol uchel i ddisgyblion. Maent yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn rhoi adborth clir iddynt ar sut i wella'u gwaith. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn eu dealltwriaeth bynciol a'u medrau.

Mae'r ysgol yn cynnig arlwy eang o gyrsiau yng Nghyfnod Allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth yn cynnwys rhai cyrsiau galwedigaethol. Ceir ystod eang iawn o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol a chorfforol.

Mae'r staff bugeiliol yn hyrwyddo datblygiad personol disgyblion yn effeithiol iawn. Maent yn cydweithio'n gadarnhaol â'r disgyblion a cheir perthynas agos a chynhaliol rhwng staff a rhieni. Ceir llu o gyfleoedd allgyrsiol i alluogi'r disgyblion i ddilyn eu diddordebau a datblygu fel dinasyddion gwybodus. Yn gyffredinol, mae'r disgyblion yn wirioneddol mwynhau dod i'r ysgol ac mae lefelau presenoldeb yn nodedig uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae gan y staff yn yr adran anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a 'Tŷ Derwen' ddisgwyliadau uchel iawn o'r hyn y gall ddisgyblion ei gyflawni'n academaidd ac yn gymdeithasol. Maent yn adnabod eu disgyblion yn dda iawn ac yn teilwra eu darpariaeth yn ofalus i sicrhau eu bod yn cyflawni hyd eithaf eu gallu.

Mae gan yr arweinwyr ddarlun cynhwysfawr o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn yr ysgol. Maent yn uchelgeisiol ac yn cynllunio'n ofalus ar gyfer gwelliannau. Mae cysylltiad cryf rhwng y gweithgareddau dysgu proffesiynol cynigir i staff â blaenoriaethau gwella'r ysgol. O ganlyniad i arweinyddiaeth ysbrydoledig, mae Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd yn cynnig awyrgylch cadarnhaol iawn i ddisgyblion ffynu'n academaidd ac i ddatblygu'n ddinasyddion cyflawn.

# Argymhellion

A1 Dylai'r ysgol barhau â'i chynlluniau gwella. Nid oes unrhyw argymhellion penodol yn deillio o'r arolygiad hwn

# Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â'r:

- Ffordd mae'r ysgol yn ysgogi ymdeimlad o berthyn i'r ysgol a sut mae hyn yn dylanwadu ar y lefelau uchel o les a phresenoldeb
- Cynllunio ar gyfer gwelliant i sicrhau'r profiadau dysgu gorau ar gyfer y disgyblion

i'w lledaenu ar wefan Estyn.



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Uwchradd |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 683 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 565 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | 118 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Uwchradd yw 20.2%) | 15.8% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Uwchradd yw 17.8%) | 2.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 30.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/04/2016 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 09/03/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 27/03/2023 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 05/06/2023

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.